# CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU (WELSH FOLK SONG SOCIETY)

England & Wales · Charity number 259772

## Details

| | |
|---|---|
| Other names | CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU |
| Status | Registered |
| Legal form | Other |
| Registered | 1971-11-19 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | Coed Y Berllan<br>Brynymor Road<br>Aberystwyth<br>SY23 2HX |
| Phone | 01970610160 |
| Email | rhcgriffiths@btinternet.com |
| Website | www.canugwerin.com |

## Activities

**Objects:** THE EDUCATION OF THE PUBLIC IN WELSH TRADITIONAL MUSIC BY THE COLLECTION, PRESERVATION AND PERFORMANCE OF THE SAID MUSIC, THE PUBLICATION OF SUCH EXAMPLES OF THE SAID MUSIC AS MAY BE DEEMED ADVISABLE AND THE ENCOURAGEMENT OF RESEARCH INTO ITS HISTORY BOTH LITERARY AND MUSICAL/AMCANION Y GYMDEITHAS FYDD ADDYSGU'R CYHOEDD YM MAES CERDDORIAETH DRADDODIADOL GYMREIG TRWY GASGLU, CADW A PHERFFORMIO'R CYFRYW GERDDORIAETH, TRWY GHOEDDI ENGHREIFFTIAU ADDAS O'R CYFRYW GERDDORIAETH A THRWY HYRWYDDO YMCHWIL I'W HANES YN LLENYDDOL A CHERDDOROL.

**Activities:** Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru collects and publishes Welsh folk-songs and undertakes research on the Welsh folk tradition. It publishes an annual journal, Canu Gwerin, collections of folk-songs and folk-song arrangements, and other works relating to the Welsh folk tradition.

Downloaded from opencharities.uk/ew/259772

## Classification

- **How:** Sponsors Or Undertakes Research
- **What:** Arts/culture/heritage/science
- **Who:** The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** THE PRINCIPALITY OF WALES
- Throughout Wales

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-04-30 | £9,132 | £4,705 | - | - |
| 2024-04-30 | £29,355 | £7,671 | - | - |
| 2023-04-30 | £4,022 | £6,968 | - | - |
| 2022-04-30 | £5,478 | £1,704 | - | - |
| 2021-04-30 | £6,205 | £3,280 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| DAVID ROY SAER MA | | |
| DR RHIANNON IFANS BA PHD | | |
| DR RHIDIAN GRIFFITHS | | |
| Dr Elen Wyn Keen | | 2024-09-29 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/259772

# Accounts

# CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

**Elusen gofrestredig rhif 259772**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023–2024

**SWYDDOGION**

**Llywydd:** D. Roy Saer

**Is-Lywyddion**
Phyllis Kinney
Myron Lloyd

**Cadeirydd**
Yr Athro E. Wyn James

**Is-Gadeirydd**
Dr Elen Wyn Keen

**Aelodau'r Pwyllgor Gwaith**
Cai Fôn Davies (2022)
Gwenan Gibbard (2021)
Branwen Medi Jones (2023)
Einir Wyn Jones (2021)
Dr Emma Lile (2021)
Trefor Pugh (2021)
Ben Ridler (2021)
Morfudd Sinclair (2021)

**Ysgrifennydd Cyffredinol:**
Dr Rhiannon Ifans
Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ
Ffôn: 01970 828719
canugwerin.com

**Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:**
Dr Rhidian Griffiths
Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX
Ffôn: 01970 610160
e-bost: rhcgriffiths@btinternet.com

**Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin***
Dr Rhiannon Ifans

## CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

**Amcanion**

Amcanion y Gymdeithas fydd addysgu'r cyhoedd ym maes cerddoriaeth draddodiadol Gymreig trwy gasglu, cadw a pherfformio'r cyfryw gerddoriaeth, trwy gyhoeddi enghreifftiau addas o'r cyfryw gerddoriaeth a thrwy hyrwyddo ymchwil i'w hanes yn llenyddol a cherddorol.

**Cyfansoddiad**

Mae'r Gymdeithas yn gweithredu yn unol â'r cyfansoddiad a fabwysiadwyd yn 1910 ac a ddiwygiwyd 4 Awst 1971 a 12 Medi 1981.

## Adroddiad ar weithgarwch y flwyddyn

**Y Cylchgrawn blynyddol, *Canu Gwerin***

Diolch i'r Golygydd, Dr Rhiannon Ifans, am drefnu rhifyn llawn a diddorol unwaith eto, rhif 46 mewn cyfres a gyhoeddwyd yn ddi-dor ers 1978. Mae'n cynnwys cyfraniadau gan Wyn Thomas, Twm Morys, Christine James, Marged Esli a'r Golygydd, yn ogystal ag adolygiadau

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**

Traddodwyd Darlith Goffa Amy Parry-Williams 2023 gan Gwenan Gibbard, ar y testun 'Caneuon Gwerin Llŷn ac Eifionydd'.
Cynhaliwyd Talwrn y Partïon Gwerin yn y Tŷ Gwerin ar faes yr Eisteddfod ym Moduan. Cadeiriwyd gan Rhiannon Ifans a'r beirniad oedd Owain Siôn; y partïon gwerin a fu'n cystadlu oedd Parti Llŷn ac Eifionydd (yn cynrychioli Eisteddfod 2023) a Pharti Gweddill Cymru (yn cynrychioli Eisteddfod 2024).
Cynhaliwyd sesiwn 'Baledi Hen a Newydd' yn y Tŷ Gwerin ar faes yr Eisteddfod. Yn cymryd rhan roedd Menna Thomas, Morfudd Sinclair, Glandon Lewis ac Edryd Williams.

**Adargraffu**

Adargraffwyd *Canu'r Cymry 1 a 2* a *Caneuon Gwerin i Blant* yn ystod y flwyddyn. Mae'n galonogol iawn fod galw o hyd am y cyfrolau hyn.

**Y Gynhadledd Flynyddol**

Cynhaliwyd y Gynhadledd Flynyddol yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Merched y Wawr, Aberystwyth, ar 23 a 24 Medi 2023, gan ddychwelyd i'r hen batrwm o gael sesiynau dros ddau ddiwrnod.
Brynhawn Sadwrn cafwyd cyflwyniadau gan Elinor Bennett, yn trafod

bywyd a gwaith y casglwr Nicholas Bennett, ac Elain Rhys yn trafod trefniannau lleisiol Grace Williams o alawon gwerin Cymreig. Mwynhawyd noson lawen ddifyr yng nghwmni Parti Camddwr yng Nghanolfan Merched y Wawr ar y nos Sadwrn. Fore Sul cafwyd cyflwyniadau gan Rhidian Griffiths ar ddisgrifiadau twristiaid o ganu gwerin a chan E. Wyn James ar ganu gwerin Cwm Taf.
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar ddiwedd y gynhadledd yn ôl ein harfer.

**Pwyllgor Gwaith**
Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y Gynhadledd ar 23 Medi 2023. Yn ystod y flwyddyn, yn ôl ein harfer, atebwyd nifer o ymholiadau am faterion yn ymwneud â byd canu gwerin.

Etholir swyddogion y Gymdeithas ac aelodau'r Pwyllgor trwy benderfyniad y Cyfarfod Blynyddol ac yn unol â'r rheolau a eglurir yn y cyfansoddiad. Etholwyd Branwen Medi Jones yn aelod newydd o'r Pwyllgor Gwaith.

**Cymynrodd**

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd cymynrodd hael trwy ewyllys y ddiweddar Hilda Hunter, Amwythig. Roedd Miss Hunter yn ddarlithydd mewn cerddoriaeth ac yn ymddiddori'n fawr yn ein traddodiad gwerin. Bu'n aelod o'r Gymdeithas am nifer o flynyddoedd hyd ei marwolaeth ar 17 Mai 2022. Cyhoeddodd ei hunangofiant, *Dyfal Donc*, yn 2006. Gofynnir inni fuddsoddi'r cymynrodd, sy'n werth dros £25,000, a defnyddio'r incwm i gyllido ysgoloriaeth i'w dyfarnu yn ôl disgresiwn Swyddogion y Gymdeithas i ymgeisydd teilwng sy'n astudio cerddoriaeth werin.

**Digido**
Gyda chymorth Llyfrgell Genedlaethol Cymru cwblhawyd y gwaith o ddigido *Canu Gwerin* 1978–2015, gyda'r bwriad o osod y ffeiliau digidol ar wefan y Gymdeithas.

**Polisi ar gynilion**
Mae'r arian sydd wrth gefn yng nghoffrau'r Gymdeithas yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyllido cyhoeddiadau, yn unol â phenderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyfarfod Blynyddol. Amcenir at gadw o leiaf £25,000 yn y cronfeydd wrth gefn i gyllido prosiectau cyhoeddi a phrosiectau digido.

**CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU**
Rhif elusen: 259772

**Cyfrifon 2023-24**

**Derbyniadau**

| ***2022-23*** | | **2023-24** |
|---|---|---|
| *1,257.00* | Aelodaeth | 1,253.00 |
| *100.00* | Rhoddion | 25.00 |
| 260.00 | Cynhadledd | 475.00 |
| *469.10* | Gwerthiant llyfrau | 532.01 |
| *502.68* | Breindaliadau | 599.10 |
| *200.12* | Rhodd gymorth | 201.35 |
| *1,232.73* | Incwm buddsoddiad | 1,269.64 |
| | Cymynrodd | 25,000.00 |
| *4,021.63* | Cyfanswm derbyniadau | **29,355.10** |

**Taliadau**

| ***2022-23*** | | **2023-24** |
|---|---|---|
| *227.65* | Gweinyddol | 277.25 |
| *501.00* | Cynhadledd | 751.00 |
| *1,767.50* | Argraffu | 5,879.00 |
| *72.40* | Costau banc | 71.60 |
| *350.00* | Eisteddfod | 180.00 |
| | Arall | 8.62 |
| | Ysgoloriaeth cynhadledd | 503.90 |
| *2,000.00* | *Cyfraniad Stars and Ribbons* | |
| *2,050.00* | *Y wefan newydd* | |
| *6,968.55* | Cyfanswm taliadau | **7,671.37** |
| - *2,946.92* | Gweddill / (diffyg) | 21,683.73 |

**Datganiad ariannol**

| ***30.4.23*** | | **30.4.24** |
|---|---|---|
| *15,360.28* | Banc | 12,044.01 |
| *594.52* | Stoc yn y Ganolfan Lyfrau | 492.99 |
| *22,354.47* | Buddsoddiad Charifund | 47,974.85 |
| *38,309.27* | | **60,511.85** |

**CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU**

**Elusen gofrestredig rhif 259772**

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol ar Gyfrifon yr Elusen am y flwyddyn**

**1 Mai 2023 hyd 30 Ebrill 2024**

## Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru am y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2024.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa'r elusen ar 30 Ebrill 2024 ac o'i hadnoddau a'i defnydd o'i hadnoddau, gan gynnwys ei hincwm a'i gwariant, am y flwyddyn honno, a bod y datganiadau hynny wedi eu paratoi yn unol ag arferion safonol cyfrifyddol y Deyrnas Gyfunol ac yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

## Casgliadau

Yn seiliedig ar y gwaith a wneuthum, yr wyf wedi dod i'r casgliad fod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddol busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith a wneuthum, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthynol i amgylchiadau sy'n bwrw amheuaeth ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol.

Iwan ap Dafydd, BA, MLib

27 Medi 2024